AMGUEDDFA CYMRU




# Ysgol Maestir

**Edrychwn ymlaen at eich gweld chi ar gyfer eich sesiwn yn Ysgol Maestir yn fuan. I helpu'r disgyblion i gael y gorau o'r sesiwn, dyma rai syniadau am drafodaethau a gweithgareddau i'w gwneud ymlaen llaw:**

## Archwilio Ysgol Maestir 360°

Cliciwch ar y dolen i archwilio delwedd 360° o Ysgol Maestir - cymerwch daith rithiol o'r adeilad.




## Lawrlwytho e-lyfr Ysgol Maestir...

Cliciwch y ddolen i weld yr eLyfr ar unrhyw ddyfais







## Eich ysgol...

Edrychwch o gwmpas eich dosbarth a'ch ysgol. Ydych chi'n meddwl y byddai dosbarth o Oes Fictoria yn edrych yn wahanol iawn? Pa bethau yn eich ysgol chi fyddech chi ddim yn eu gweld mewn ysgol yn Oes Fictoria?

AMGUEDDFA
CYMRU



# Ysgol Maestir

## Trafodaeth dosbarth/grŵp...

Trafodwch beth ydych chi wedi'i ddysgu hyd yn hyn am Ysgol Maestir. Beth arall hoffech chi wybod? Meddyliwch am gwestiynau i'w holi yn ystod y gweithdy.

## Wedi'ch ymweliad...

Wedi i chi gael profiad o fod yn ddisgybl yn Oes Fictoria, beth am roi cynnig ar y dasg ysgrifennu creadigol yn yr e- lyfr? Defnyddiwch eich profiad yn y gweithdy i greu dyddiadur diddorol a bywiog!